

# CADW'N LACH YN Y GWAITH

# ASTUDIAETH ACHOS

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

RHONDDA CYNON TAF

## “Rwy'n credu bod y gwasanaeth yn anhygoel... Rydych chi'n mynd y tu hwnt i'r disgwyl."

### Gwybodaeth am Wasanaeth Cadw’n Iach yn y Gwaith

Mae'r Gwasanaeth Cadw'n Iach yn y Gwaith yn cynnig dull rhagweithiol ac integredig sy'n cefnogi atal afiechyd corfforol a meddyliol, wrth gefnogi'r broses adsefydlu a rheoli cyflyrau tymor hir.

Rydyn ni'n darparu cymorth clinigol i staff busnesau bach a chanolig yn Rhondda Cynon Taf i helpu pobl i weithio'n well o ddydd i ddydd ac i reoli symptomau er mwyn eu galluogi i ddychwelyd i'r gwaith neu barhau i weithio.

### Y Broblem

Roedd y cleient wedi bod yn absennol o'r gwaith am oddeutu 4 wythnos ac roedd yn ei chael hi'n anodd iawn. Ar ôl asesiad, daeth yn amlwg nad oedd y cleient yn dioddef o boen syml yn y cefn - roedd ganddi gyflwr llidiol tymor hir ar yr asgwrn cefn.
Safon aur y driniaeth ar gyfer ei chyflwr llidiol yw adolygiad gydag ymgynghorydd rhiwmatoleg y cleient ond doedd hyn ddim yn bosibl i ddechrau oherwydd cyfyngiadau'r coronafeirws. Roedd hyn yn golygu bod yr hyn y gellid ei wneud i'r cleient yn gyfyngedig iawn.

### Ein Datrysiad Ni

Trefnodd ffisiotherapydd Cadw'n Iach yn y Gwaith adolygiadau gan feddygon teulu a'r adran ddamweiniau ac achosion brys. Fe wnaethon nhw hefyd aros mewn cysylltiad gyda'r cleient dros y ffôn yn wythnosol i ddarparu cefnogaeth a chyngor ychwanegol, gan nad oedd y gwasanaethau arferol ar gael. Fe wnaethon nhw ei chyfeirio at y nyrsys rhiwmatoleg a llinell gymorth elusen Ankylosing Spondylitis a oedd yn ddefnyddiol iawn i'r cleient.

Roedd y cleient hefyd yn cael trafferth gyda'i hiechyd meddwl oherwydd difrifoldeb ei symptomau a'r anallu i gael mynediad at ei gofal meddygol arferol. Felly cyfeiriodd y ffisiotherapydd at wasanaeth cwnsela Cadw'n Iach yn y Gwaith.

### Adborth

**Tystiolaeth y Cleient** - “Rwy'n credu bod y gwasanaeth yn anhygoel, dyma'r gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol gorau i fi ei gael erioed. Rydych chi'n mynd y tu hwnt i'r disgwyl."

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

*Mae'r gwasanaeth Cadw'n Iach yn y Gwaith yn cynnig cymorth i fusnesau bach a'u gweithwyr i ddelio â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, iechyd a lles - gan alluogi busnesau i fod yn fwy cydnerth a llewyrchus.*

RHONDDA CYNON TAF